

Taflen Wybodaeth i Gleifion

Omeprazole

Ar gyfer beth y defnyddir Omeprazole?

Rydych chi wedi cael Omeprazole 20 mg i'w gymryd cyn i chi gael eich llawdriniaeth. Mae'n perthyn i grŵp o feddyginiaethau a elwir yn atalydd pwmp proton. Fe'i rhagnodwyd i ostwng faint o asid y mae'ch stumog yn ei gynhyrchu ac mae'n helpu i atal asid rhag dod i fyny o'r stumog tra o dan anesthetig yn ystod llawdriniaeth.

Peidiwch â chymryd Omeprazole os:

Oes gennych alergedd (gorsensitifrwydd) i Omeprazole neu atalydd pwmp proton arall e.e. Esomeprazole, Lansoprazole, Pantoprazole neu Rabeprazole.

Sut i gymryd Omeprazole

Dylech gymryd eich meddyginiaeth fel a ganlyn. Bydd eich nyrs cyn-derbyniad yn eich cyngori os ydych wedi'ch trefnu ar gyfer rhestr bore neu brynhawn lle bo hynny'n bosibl ac yn ticio'r cyfarwyddiadau priodol i'w dilyn isod:

Os nad yw amser eich llawdriniaeth yn hysbys, dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer rhestr foreol:

Ar gyfer llawdriniaeth yn y bore:

- Cymerwch y feddyginiaeth hon trwy'r geg
- Cymerwch 1 capsawl (20 mg) 30 munud cyn eich pryd bwyd gyda'r nos y diwrnod cyn eich llawdriniaeth
- Cymerwch 1 capsawl (20 mg) am 06:00 ar fore'r llawdriniaeth. Dylech gymryd y capsawl hwn gyda sipiau bach o ddŵr tap (dim mwy na hanner cwpan.)

Ar gyfer llawdriniaeth yn y prynhawn:

- Cymerwch y feddyginiaeth hon trwy'r geg
- Cymerwch 1 capsawl (20 mg) 30 munud cyn eich pryd bwyd gyda'r nos y diwrnod cyn eich llawdriniaeth

- **Cymerwch 1 capsawl (20 mg) am 11:00 ar fore'r llawdriniaeth. Dylech gymryd y capsawl hwn gyda sipiau bach o ddŵr tap (dim mwy na hanner cwpan.)**

Mae'n rhaid i chi gymryd eich capsawlau yn unol â'r cyfarwyddiadau. Os na wnewch hynny, gall arwain at oedi neu ganslo eich llawdriniaeth.

Sut i storio Omeprazole

- Cadwch allan o gyrraedd plant
- Peidiwch â defnyddio Omeprazole ar ôl y dyddiad dod i ben a nodir ar y label. Mae'r dyddiad dod i ben yn cyfeirio at ddiwrnod olaf y mis hwnnw
- Ni ddylid gwaredu meddyginiaethau trwy wastraff cartref

Mae Sgîl-ffeithiau posibl yn cynnwys

Fel pob meddyginiaeth, gall Omeprazole achosi sgîl-ffeithiau er nad yw pawb yn eu cael. Gallai'r sgîl-ffeithiau canlynol ddigwydd gyda'r feddyginiaeth hon:

Rhowch y gorau i gymryd Omeprazole ac ewch i weld meddyg ar unwaith os byddwch yn sylwi ar unrhyw un o'r sgîl-ffeithiau canlynol, efallai y bydd angen triniaeth feddygol frys arnoch:

Sgîl-ffeithiau difrifol:

- Adweithiau alergaidd, gall yr arwyddion gynnwys;
- Brech, cosi neu losg ar y croen
- Chwyddo yn eich wyneb, gwefusau, tafod neu rannau eraill o'r corff
- Poen yn y frest, diffyg anadl, gwichian neu gael trafferth anadlu
- Twymyn anesboniadwy a theimlo'n wan, yn enwedig wrth sefyll
- Problemau arenau, a all arwain at boen cefn, twymyn, poen pasio wrin, gwaed yn yr wrin a newidiadau mewn profion gwaed
- Poen stumog difrifol, gall hyn fod yn arwydd o rywbeth o'r enw llid y pancreas
- Curiad calon araf, afreolaidd

Sgîl-ffeithiau:

- **Cyffredin neu gyffredin iawn:** poen yn yr abdomen, rhwymedd, dolur rhydd, pendro, ceg sych, anhwylderau gastroberfeddol, cur pen, anhunedd, cyfog, adweithiau croen, chwydu
- **Anghyffredin:** Arthralgia, toriadau esgyrn, dryswch, iselder, cysgadwydd, lewcopenia, anhwylder, cyhyrwayw (myalgia), pinnau bach (paraesthesia), edema ymylol, thrombocytopenia, pendro, anhwylderau golwg
- **Prin neu brin iawn:** Ymddygiad ymosodol, cynnwrf, caethdra, eneffalopathi, candidiasis gastroberfeddol, gwendid cyhyrau, agranwlosytosis, alopesia, gynecomastia, rhithwelediadau, anhwylderau hepatig, hyperhidrosis,

hyponatraemia, neffritis tiwbwlointerstitaidd, pancytopenia, adwaith ffotosensitifrwydd, adweithiau niweidiol croen difrifol (SCARs), stomatitis, blas wedi'i newid

- **Amllder nad yw'n hysbys:** hypomagnesemia (yn fwy cyffredin ar ôl blwyddyn o driniaeth, ond weithiau ar ôl 3 mis o driniaeth), cochni lwpws croenol lled-acíwt

Os bydd unrhyw un o'r sgîl-ffeithiau yn mynd yn ddifrifol, neu os byddwch yn sylwi ar unrhyw sgîl-ffeithiau nad ydynt wedi'u rhestru yn y daflen hon, rhowch wybod i'ch Meddyg.

Os bydd arnoch angen mwy o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â:

Enw: _____ **Adran:** _____

Rhif cyswllt: _____

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English**